



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad

## Fersiynau drafft o orchymyn newydd ar yr esemptiad eglwysig ac o ganllawiau ar arferion gorau

Atodiad B

### **Drafft**

#### ***Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig***

Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn rhan o'r trydydd ymgynghoriad cyhoeddus ar is-ddeddfwriaeth a chanllawiau arferion gorau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a mesurau ehangach i'w hategu. Fe'i paratowyd er mwyn ategu Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 sydd hefyd yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, a dylid ei darllen ar y cyd â'r Gorchymyn hwnnw.

Ewch i dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru ar y we i weld yr holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r ymgynghoriad hwn (<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>) ac i weld gwybodaeth ar sut i ymateb iddo. Bydd yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 13 Gorffennaf 2018.

16 Ebrill 2018



DRAFFT

16 Ebrill 2018

***DRAFFT***

**Rheoli Newid i Fannau Addoli  
Rhestredig yng Nghymru: yr  
Esemptiad Eglwysig**

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

### Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

#### Datganiad o Ddiben

Mae *Rheoli Newid i Addoldai Rhestredig yng Nghymru* yn esbonio sut mae Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 (Gorchymyn 2018) yn gweithio.<sup>1</sup>

Mae'r canllawiau hyn yn nodi'r egwyddorion arweiniol i'w hystyried wrth fynd ati i gynllunio newidiadau i fannau addoli rhestredig sy'n dod o dan Orchymyn 2018. Maent hefyd yn cynnwys cod ymarfer ar gyfer gweithdrefnau cydsynio'r enwadau, sy'n egluro sut y dylid cynnwys yr egwyddorion hynny wrth wneud gwaith rheoli a gwneud penderfyniadau.

Mae'r canllawiau arferion gorau hyn wedi'u hanelu'n bennaf ar yr enwadau hynny sydd eisoes yn cael eu hesemptio rhag y system reoli seciwlar. Byddant o ddiddordeb hefyd i awdurdodau cynllunio lleol ac i gynulleidfaoedd ac unigolion sydd â diddordeb mewn gwarchod mannau addoli rhestredig. Byddant o gymorth hefyd i enwadau ac i grwpiau ffydd a fydd, o bosibl, am wneud cais am esemptiad eglwysig yn y dyfodol.

Rhaid i drefniadau ar gyfer gwarchod asedau hanesyddol y darperir ar eu cyfer o dan yr esemptiad eglwysig fod yn gyfwerth o leiaf â'r rheini a arferir gan yr awdurdodau cynllunio lleol, fel y bo'r egwyddorion a'r arferion yn adlewyrchu'r rheini a nodir yn Neddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990,<sup>2</sup> Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017,<sup>3</sup> *Polisi Cynllunio Cymru*,<sup>4</sup> *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*<sup>5</sup> ac yn *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*.<sup>6</sup>

---

<sup>1</sup> Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 *I'w gadarnhau*

<sup>2</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990)  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

<sup>3</sup> Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/793/contents/made/welsh> fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/638/contents/made/welsh>

<sup>4</sup> *Polisi Cynllunio Cymru*, (Argraffiad 9, Pennod 6), Yr Amgylchedd Hanesyddol, Llywodraeth Cymru, 2016  
<http://gov.wales/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

<sup>5</sup> *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, Llywodraeth Cymru, 2017  
<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?skip=1&lang=cy>

<sup>6</sup> *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017  
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

Cynnwys	2
Ffeithiau Cyflym	3
Cyflwyniad	3
1. Y Cefndir Deddfwriaethol	4
2. Yr Esemptiad Eglwysig	5
3. Beth mae'r Esemptiad Eglwysig yn ei gwmpasu?	6
4. Egwyddorion Arweiniol	8
4.1 Egwyddorion Cadwraeth	8
4.2 Asesu'r Effaith ar Dreftadaeth	10
4.3 Tystiolaeth Archaeolegol	11
4.4. Defnyddio Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol	12
5. Gweithdrefnau Cydsynio'r Enwadau: Cod Ymarfer	12
5.1 Cynnal a chadw	12
5.2 Tryloywder	13
5.3 Craffu Annibynnol a Chyngor Proffesiynol	13
5.4 Cyngor cyn gwneud cais	13
5.5 Ystyried Cynigion ar gyfer Newid	13
5.6. Ymgynghori	14
5.7 Cyhoeddusrwydd	15
5.8 Amodau	15
5.9 Apelau	15
5.10 Cydymffurfio	15
5.11 Rheoli Gwybodaeth	16
5.12 Argyfyngau	16
5.13 Mannau addoli sydd wedi cau neu sydd wrthi'n cau	16
5.14 Monitro ac Adroddiadau Blynyddol	17
Gwybodaeth Bellach	18
Cysylltiadau	21

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

### Ffeithiau Cyflym

- Mae rhyw 2,000 o fannau addoli hanesyddol yng Nghymru wedi cael eu rhestru oherwydd eu diddordeb archaeolegol neu hanesyddol arbennig.
- Mae'n bosibl bod angen eu newid, ond mae angen i'r newid hwnnw gael ei reoli'n dda.
- Mae deall arwyddocâd man addoli rhestredig yn gallu helpu i lywio unrhyw newid fel ei fod yn parchu'r hyn sy'n gwneud yr adeilad yn un arbennig.
- Yn fras, nid oes angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith i fannau addoli rhestredig sy'n cael eu defnyddio gan enwadau esempt, ond mae'n bosibl y bydd dal angen caniatâd cynllunio a chydsyniadau eraill arnynt. Os yw enwadau wedi cael eu hesemptio rhag gwneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig, rhaid bod ganddynt systemau reoli mewnol sy'n gwarchod adeiladau i raddau sydd o leiaf yn gyfwerth â'r warchodaeth a gânt o dan y system seciwlar.

### Cyflwyniad

Mae gan fannau addoli le arbennig yn amgylchedd hanesyddol Cymru. Nhw yw rhai o'r adeiladau mwyaf unigryw yn ein tirweddau gwledig a'n trefi, ac mae llawer ohonynt yn enghreifftiau eithriadol o bensaernïaeth a chreffftwaith. Maent wedi bod wrth galon eu cymunedau ers iddynt gael eu codi gyntaf. Maent yn adlewyrchu credoau a thraddodiadau cyffredin ac yn cynnal yr iaith Gymraeg, ac maent yn gyforiog o straeon personol ac o brofiadau a rannwyd — maent yn rhan annatod o'n hanes cymdeithasol a diwylliannol.

I gydnabod eu pwysigrwydd, mae rhyw 2,000 o fannau addoli hanesyddol wedi cael eu rhestru oherwydd eu diddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae mwy na thraean ohonynt yn rhai rhestredig graddau I a II\*. Mae llawer o adeileddau cysylltiedig, megis pyrth mynwentydd a chofebau, wedi'u rhestru hefyd. Mae pob adeilad rhestredig yn bwysig i dreftadaeth ddiwylliannol ac amgylchedd hanesyddol Cymru ac yn haeddu cael ei warchod a'i goleddu. O ofalu am adeiladau rhestredig yn briodol, o barhau i'w defnyddio, ac o reoli newid mewn ffordd sensitif, mae'r adeiladau hyn yn gallu dod â budd i gymunedau yng Nghymru mewn amryfal ffyrdd. Gall y manteision hynny helpu i greu'r Cymru y carem ei gweld yn y dyfodol drwy gyfrannu at yr amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.<sup>7</sup>

Yn 2015, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru eu 'Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru'.<sup>8</sup> Mae'r cynllun gweithredu'n cydnabod bod angen i waith i sicrhau dyfodol ar gyfer yr adeiladau gwerthfawr hyn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth drylwyr o'u cymeriad a'u pwysigrwydd, ar egwyddorion ac arferion cadwraeth cadarn, ac ar gysylltu a thrafod mor eang â phosibl ac annog

<sup>7</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

<sup>8</sup> Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Addoldai Hanesyddol yng Nghymru

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/policy/historic-places-of-worship/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

cynifer ag y bo modd i gyfrannu at y gwaith hwnnw. Er bod y cynllun gweithredu'n berthnasol i bob man addoli o ba enwad neu ffydd bynnag, a pha un a yw'n rhestredig ai peidio, mae'r egwyddorion a'r arferion ar gyfer manau addoli rhestredig a amlinellir yn y canllawiau arferion gorau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r amcanion sydd ynddo.

### 1. Y Cefndir Deddfwriaethol

Oherwydd bod adeiladau rhestredig yn rhan mor bwysig o'n treftadaeth, mae yna ffordd o reoli newid sy'n sicrhau bod eu diddordeb arbennig yn cael ei ystyried. Mae hynny'n golygu bod angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith i estyn neu newid adeilad rhestredig mewn unrhyw ffordd a fyddai'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.<sup>9</sup> Mae angen cydsyniad hefyd ar gyfer gwaith i ddymchwel adeilad rhestredig.<sup>10</sup>

Gan amlaf, yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n gweinyddu'r systemau cydsynio ffurfiol a ddefnyddir i reoli newid i adeiladau rhestredig. Ond mae adran 60(1) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 (Deddf 1990)<sup>11</sup> yn gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer gwarchod a rheoli manau addoli drwy arfer a elwir yn esemptiad eglwysig.<sup>12</sup>

Caiff Gweinidogion Cymru wrthod yr esemptiad eglwysig neu gyfyngu arno mewn amryfal ffyrdd; er enghraifft, ar gyfer adeiladau yn gyffredinol, ar gyfer adeiladau penodol neu fathau penodol o adeiladau, enwadau neu grefyddau penodol, neu fathau penodol o waith.<sup>13</sup> Maent wedi gwneud Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 (Gorchymyn 2018),<sup>14</sup> sy'n esemptio rhai enwadau rhag cydsyniad adeilad rhestredig pan fyddant yn gwneud newidiadau i adeiladau eglwysig sy'n parhau'n fannau addoli.

Mae'r esemptiad eglwysig yn adlewyrchu anghenion penodol adeiladau rhestredig sy'n cael eu defnyddio fel manau addoli, ond mae'n cydnabod bod angen i fannau addoli hanesyddol gael eu gwarchod yn briodol, a hynny i raddau sydd o leiaf yn gyfwerth â'r warchodaeth a gânt o dan y system seciwlar. Mae hynny'n golygu bod newid yn cael ei reoli drwy systemau reoli mewnol yn lle cydsyniad adeilad rhestredig. Dylai fod gan yr enwadau esempt systemau cadarn yn eu lle sy'n

<sup>9</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 7.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

<sup>10</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 7

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

<sup>11</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 60(1)

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/60>

<sup>12</sup> Mae adran 60(1) yn dweud na fydd y darpariaethau yn adrannau 3A, 4–7, 9, 47, 54 a 59 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 yn gymwys i unrhyw adeilad eglwysig sydd, am y tro, yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig.

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

<sup>13</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 60(3)

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/60>

<sup>14</sup> Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 *I'w gadarnhau*

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

adlewyrchu'r safonau yn y cod ymarfer yn adran 5 o'r canllawiau arferion gorau hyn, ac sy'n cael eu hategu gan yr egwyddorion arweiniol yn adran 4.

Mae Cadw yn monitro pa mor effeithiol yw systemau rheoli mewnol yr enwadau ar ran Gweinidogion Cymru.

## 2. Yr Esemptiad Eglwysig

Mae Gorchymyn 2018 yn cyfyngu esemptiad eglwysig i chwe enwad penodedig sydd â systemau rheoli mewnol sy'n gwarchod mannau addoli rhestredig i'r graddau angenrheidiol. Dyma'r enwadau sydd wedi'u hesemptio:

- Yr Eglwys yng Nghymru<sup>15</sup>
- Eglwys Loegr (ar gyfer yr eglwysi hynny yng Nghymru sydd o dan ei hawdurdodaeth ffacwlti)<sup>16</sup>
- Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr<sup>17</sup>
- Yr Eglwys Fethodistaidd<sup>18</sup>
- Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr<sup>19</sup>
- Undeb Bedyddwyr Cymru<sup>20</sup>

Dylai manylion y systemau rheoli mewnol perthnasol ar gyfer pob enwad fod ar gael ar-lein ar wefannau'r enwadau.

Er, efallai, fod y trefniadau'n amrywio o ran eu manylion, dylent i gyd reoli a gwarchod adeiladau rhestredig i raddau sydd o leiaf yn gyfwerth ag o dan y system seciwlar ar gyfer rheoli newid i adeiladau o'r fath. Mae'r egwyddorion arweiniol yn adran 4 o'r canllawiau arferion gorau hyn a'r cod ymarfer yn adran 5 yn esbonio sut y gellir gwneud hynny. Mae llwyddiant y trefniadau hyn yn dibynnu hefyd ar gynnwys rhanddeiliaid eraill.

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer o dan Ddeddf 1990 i amrywio'r esemptiad eglwysig drwy gyfrwng Gorchymyn pellach. Er enghraifft, gallai Gweinidogion Cymru ddod ag adeiladau enwad o dan y trefniadau seciwlar ar gyfer rheoli adeiladau rhestredig os yw'r enwad hwnnw'n methu â gwarchod adeiladau rhestredig i'r graddau priodol. Gallai Gweinidogion Cymru hefyd dynnu'r esemptiad eglwysig yn ôl oddi wrth adeilad unigol os yw'n ymddangos yn debygol y gallai gwaith a allai niweidio'r adeilad hwnnw gael ei wneud heb iddo gael ystyriaeth briodol.

---

<sup>15</sup> <http://www.churchinwales.org.uk/structure/representative-body/property/churches/>

<sup>16</sup> <http://www.churchcare.co.uk/churches/faculty-rules=5>

<sup>17</sup> <http://www.cbcew.org.uk/CBCEW-Home/Departments/Christian-Life-and-Worship/Patrimony/Historic-Churches>

<sup>18</sup> <https://propertyconsent.methodist.org.uk/guide/12>

<sup>19</sup> [http://www.baptist.org.uk/Groups/220867/Listed\\_Buildings.aspx](http://www.baptist.org.uk/Groups/220867/Listed_Buildings.aspx)

<sup>20</sup> [http://www.baptist.org.uk/Groups/220867/Listed\\_Buildings.aspx](http://www.baptist.org.uk/Groups/220867/Listed_Buildings.aspx)



## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

Mae angen i grwpiau ffydd ac enwadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn gael cydsyniad adeilad rhestredig gan yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer gwaith i fannau addoli rhestredig.

Caiff grwpiau ffydd neu enwadau eraill gyflwyno sylwadau i Weinidogion Cymru os ydynt yn dymuno i'r Gweinidogion ystyried rhoi esemptiad eglwysig iddynt. I fod yn gymwys i gael eu hesemptio, mae angen iddynt ddangos eu bod wedi sefydlu, neu y byddant yn sefydlu mesurau cadarn a thryloyw, sy'n bodloni'r safonau yn y canllawiau hyn, i warchod asedau hanesyddol. Fe'u cynghorir yn gryf i gysylltu â Cadw yn gynnar yn y broses i weld a yw eu systemau mewnol yn bodloni'r gofynion. Byddai angen diwygio Gorchymyn 2018 er mwyn estyn yr esemptiad eglwysig i gynnwys grŵp ffydd neu enwad newydd.

Mae angen i awdurdodau cynllunio lleol wneud yn siŵr eu bod yn gwbl ymwybodol o'r esemptiad eglwysig. Mae angen iddynt wybod beth sy'n dod o fewn cwmpas yr esemptiad, oherwydd bod angen i newidiadau sydd y tu allan i'w gwmpas gael eu rheoli drwy'r system seciwlar o roi cydsyniad adeilad rhestredig.

### 3. Beth mae'r Esemptiad Eglwysig yn ei gwmpasu?

Mae'r esemptiad eglwysig yn gymwys i bob math o waith ar adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio am y tro at ddibenion eglwysig ac y byddai angen cydsyniad adeilad rhestredig ar ei gyfer fel arall.<sup>21</sup> Mae hefyd yn gymwys i unrhyw wrthrych neu adeiledd sy'n sownd wrth yr adeilad hwnnw, neu sydd o fewn ei gwrtil, a sydd, er nad yw'n sownd wrtho, yn rhan o'r tir (pa un a yw'r gwrthrych neu'r adeiledd hwnnw'n rhestredig yn ei hawl ei hun ai peidio).<sup>22</sup>

I fod yn gymwys i gael esemptiad eglwysig, dylai'r adeilad rhestredig gael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig cyn ac ar ôl i'r gwaith gael ei wneud.<sup>23</sup> Er nad yw'r term 'dibenion eglwysig' yn cael ei ddiffinio yn Deddf 1990, gallai adeiladau a ddefnyddir at ddibenion eglwysig, ym marn Gweinidogion Cymru, gynnwys pyrth mynwentydd, waliau terfyn, festrïoedd, ysgoldai a neuaddau eglwysi. Mae'n bosibl y bydd adeileddau fel cistfeddau a chroesau mewn mynwentydd yn dod o dan gwmpas yr esemptiad hefyd ond os ydynt yn henebion cofrestredig, byddai angen cael cydsyniad heneb gofrestrredig cyn mynd ati i'w newid mewn unrhyw ffordd.<sup>24</sup>

Nid yw adeiladau sy'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn rhai preswyl yn cael eu hystyried yn rhai a ddefnyddir at ddibenion eglwysig, ac nid yw gwaith ar adeiladau o'r fath yn dod o dan yr esemptiad. Os yw adeilad preswyl yn sownd wrth fan addoli rhestredig,

---

<sup>21</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 60  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/60>

<sup>22</sup> Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Ardaloedd Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018, erthygl 4(1) *I'w gadarnhau*

<sup>23</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 60(4)  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/60>

<sup>24</sup> Yn rhinwedd adran 61(2) o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, nid yw henebion cofrestredig yn dod o fewn cwmpas adrannau 2B, 3A, 4, 7 i 9, 47, 54 a 59 o Ddeddf 1990.  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/61>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

bydd angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer gwaith ar yr adeilad preswyl, ond y trefniadau a arferir o dan yr esemptiad eglwysig fydd yn berthnasol i'r gwaith ar y man addoli rhestredig ei hun.

Yn fras, er mwyn dod o dan gwmpas yr esemptiad, rhaid i'r gwaith gael ei wneud gan yr enwad neu ei gynulleidfa neu ar eu rhan, ond gweler erthygl 4(3) o'r Gorchymyn i gael y manylion.<sup>25</sup> Rhaid i geisiadau gan drydydd partïon gael eu gwneud o dan y system seciwlar o geisio cydsyniad adeilad rhestredig. Er enghraifft, pe byddai darparwr gwasanaethau am wneud cais i godi mast telathrebu ar dŵr eglwys, byddai angen iddo gyflwyno cais am gydsyniad adeilad rhestredig i'r awdurdod cynllunio lleol.

Os oes unrhyw amheuan a yw'r esemptiad yn gymwys ai peidio i adeileddau penodol neu i waith penodol, dylid gofyn cyngor yr awdurdod cynllunio lleol, ond byddai'n fater i lys sifil benderfynu arno pe bai unrhyw anghydfod.

**Nid** yw'r esemptiad yn cwmpasu:

### **Caniatâd cynllunio**

Os yw gwaith datblygu'n effeithio ar du allan man addoli rhestredig neu ar fan addoli anrhestredig sydd mewn ardal gadwraeth, mae'n bosibl y bydd angen caniatâd cynllunio, a bydd angen i rai mathau o waith gael cymeradwyaeth hefyd o dan y rheoliadau adeiladu. Mewn achosion o'r fath, rhaid cyflwyno ceisiadau i'r awdurdod cynllunio lleol.

Mae'r angen i gael caniatâd cynllunio a chymeradwyaeth o dan y rheoliadau adeiladu yn ychwanegol at yr angen i gael cymeradwyaeth o dan y system reoli enwadol. Pan fo angen caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol hefyd, fe'ch cynghorir i ddechrau ar y broses gymeradwyo fewnol cyn cyflwyno unrhyw geisiadau allanol, ond mae'n syniad da nodi unrhyw faterion cynllunio neu faterion eraill yn gynnar yn y broses.

### **Caniatâd heneb gofrestredig**

Ni ellir cofrestru adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion eglwysig yn henebion,<sup>26</sup> ond gellir cofrestru rhai o'r nodweddion sydd o fewn eu cwrttil, megis croesau yn y fynwent neu gerrig arysgrifedig. Os yw gwaith y bwriedir ei wneud yn debygol o effeithio ar henebion cofrestredig, dylid cyflwyno cais am gydsyniad heneb gofrestredig i Weinidogion Cymru drwy Cadw.<sup>27</sup> Anogir ymgeiswyr i ofyn am gyfarfod ar y safle i drafod eu cynigion cyn mynd ati i gyflwyno cais.

---

<sup>25</sup> Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Ardaloedd Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018, erthygl 4(3) *I'w gadarnhau*

<sup>26</sup> Deddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, adran 61(8)  
<https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1979/46/section/61>

<sup>27</sup> Caniatâd heneb gofrestredig  
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/schedmonconsent/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

### Dymchwel yn llwyr

Os bwriedir dymchwel adeilad rhestredig yn llwyr, ni ellir ystyried bellach fod yr ased yn parhau i gael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig, felly nid yw'n dod o dan yr esemptiad.<sup>28</sup> Rhaid cael caniatâd yr awdurdod cynllunio lleol i ddymchwel adeilad rhestredig.<sup>29</sup>

### Cydsyniad ardal gadwraeth

Nid yw'r esemptiad eglwysig yn golygu nad oes angen cyflwyno cais i'r awdurdod cynllunio lleol am gydsyniad ardal gadwraeth. Mae angen cydsyniad ardal gadwraeth os bwriedir dymchwel adeilad anrhestredig mewn ardal gadwraeth. Mae dymchwel yn golygu bod adeilad yn cael ei dynnu i lawr a'i ddinistrio'n llwyr neu bron yn llwyr. Mater i lys benderfynu arno yw hwn yn y pen draw — gallai cael gwared ar adeilad cyfan heblaw am un wedd allanol ohono gael ei ystyried yn ddymchwel.

### Mannau addoli sydd wedi cau neu sydd wrthi'n cau

Mae'r esemptiad eglwysig yn dod i ben cyn gynted ag y rhoddir y gorau i ddefnyddio adeilad fel man addoli. Cyn gynted ag y bo esemptiad yn peidio â bod yn gymwys, mae holl bwerau'r awdurdod cynllunio lleol mewn perthynas ag adeiladau rhestredig yn gymwys, gan gynnwys y mesurau gorfodi sydd ar gael iddo.<sup>30</sup>

### Gweddillion Dynol

Wrth gloddio mewn mynwentydd hanesyddol ac wrth wneud gwaith y tu mewn i eglwysi, lle mae pobl wedi'u claddu, mae'n debyg y bydd gweddillion dynol yn dod i'r golwg, a hynny'n gymharol agos i'r wyneb weithiau. Mae'n anghyfreithlon symud neu darfu ar weddillion dynol heb awdurdod cyfreithlon. Mae amryfal gyfreithiau (seciwlar ac eglwysig) yn darparu fframwaith ar gyfer ymdrin â gweddillion dynol yn unol ag amryfal ffactorau. Dylid cadarnhau pa fframwaith cyfreithiol sy'n gymwys cyn dechrau ar y gwaith ac, os yw hynny'n briodol, dylid cael trwydded datgladdu oddi wrth y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## 4. Egwyddorion Arweiniol

Mae'r esemptiad eglwysig yn seiliedig ar yr egwyddor o warchod i raddau sydd o leiaf yn gyfwerth â'r warchodaeth a roddir o dan y system seciwlar. I gadw'r esemptiad, rhaid i'r enwadau fedru dangos bod eu systemau'n adlewyrchu'r polisiau a'r egwyddorion sy'n sail i'r system seciwlar o warchod asedau hanesyddol. Rhaid iddynt ddangos bod eu prosesau cydsynio nhw yr un mor drylwyr, agored, tryloyw ac atebol â'r prosesau seciwlar, a'u bod yn ymgynghori i'r un graddau.

### 4.1 Egwyddorion Cadwraeth

Mae egwyddorion sylfaenol cadwraeth yn cael eu hamlinellu yn *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd*

<sup>28</sup> AG ex rel Bedfordshire CC v Howard [1976] AC 363.

<sup>29</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adran 7  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/section/7>

<sup>30</sup> Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, adrannau 3A, 4, 7, 9, 47, 54 a 59  
<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

*Gynaliadwy*.<sup>31</sup> Dylid troi at *Egwyddorion Cadwraeth* i weld y manylion, ond crynhoir y chwe egwyddor isod.

### **1. Rheolir asedau hanesyddol er mwyn cynnal eu gwerthoedd.**

Y nod bob amser yw dod o hyd i'r ffordd orau o warchod a gwella nodweddion arbennig adeilad, gan barhau ar yr un pryd i'w ddefnyddio mewn ffordd sy'n ei gynnal. Felly, dylai fod diben clir, sy'n ddymunol ac yn angenrheidiol, i unrhyw newidiadau; wrth newid adeilad, dylid ymyrryd ag ef i'r graddau lleiaf posibl a dylai'r dylunio a'r crefftwaith fod o safon uchel.

### **2. Mae deall arwyddocâd asedau hanesyddol yn hollbwysig.**

Mae gan asedau hanesyddol bedwar gwerth treftadaeth: gwerth tystiolaethol, hanesyddol, esthetig a chymunedol. Mae'r rhain i gyd yn berthnasol i fannau addoli rhestredig. Felly, wrth ddatblygu ac ystyried cynigion, dylid rhoi ystyriaeth lawn i arwyddocâd bob amser, a dylid parchu diddordeb arbennig yr adeilad a'i gynnwys a'i leoliad yng ngoleuni'r gwerthoedd hyn.

### **3. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn adnodd a rennir.**

Mae gan y cyhoedd ddiddordeb arbennig o gryf yng ngwerthoedd treftadaeth mannau addoli rhestredig. Mae'n bwysig, felly, hyrwyddo mynediad, dealltwriaeth a mwynhad ehangach ohonynt, a gweithio mewn partneriaeth pryd bynnag y bo modd er mwyn cynnal y dreftadaeth hon.

### **4. Bydd pawb yn gallu mynd ati i gynnal yr amgylchedd hanesyddol.**

Mae gofalu am asedau hanesyddol yn gyfrifoldeb i bawb. Mae rhoi cyfle i bobl gymryd rhan mewn ffordd ddeallus ac egniol yn rhan annatod o reoli'r asedau hynny mewn ffordd gynaliadwy, ac mae'n hanfodol manteisio ar wybodaeth arbenigol a sgiliau priodol.

### **5. Rhaid i benderfyniadau ynghylch newid fod yn rhesymol, yn dryloyw ac yn gyson.**

Mae hyn yn golygu y dylai cyrff sy'n gwneud penderfyniadau arfer arbenigedd, profiad a barn mewn proses gyson a thryloyw sy'n cael ei harwain gan y gyfraith a pholisi. Dylai cyrff sy'n gwneud penderfyniadau hefyd gysylltu, trafod ac ymgynghori digon â'r cyhoedd i lywio ac i gyfiawnhau'r penderfyniadau y maent yn eu gwneud.

### **6. Rhaid cofnodi penderfyniadau a dysgu'r gwersi sy'n deillio ohonynt.**

Mae hyn yn golygu y dylai cofnodion sy'n ymwneud â'r broses benderfynu gael eu cadw ar ffurf sydd ar gael yn hwylus i bawb, ac y dylid monitro a gwerthuso effeithiau unrhyw newid. Mae hefyd yn bwysig casglu gwybodaeth yn ystod y broses newid.

Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i bob sefydliad sy'n gysylltiedig â rheoli'r amgylchedd hanesyddol — gan gynnwys yr enwadau sydd wedi'u hesemptio — ddefnyddio'r egwyddorion hyn wrth wneud penderfyniadau.

---

<sup>31</sup> *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011  
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

### 4.2 Asesu'r Effaith ar Dreftadaeth

Er mwyn gofalu am asedau hanesyddol yng ngoleuni'r egwyddorion cadwraeth hyn, rhaid gwneud yn siŵr, pan fo angen newid, ei fod yn cael ei reoli mewn ffordd sy'n gwarchod ac yn gwella arwyddocâd a gwerthoedd treftadaeth yr asedau.

Mae asesu'r effaith ar dreftadaeth yn broses strwythuredig sy'n golygu bod modd ystyried arwyddocâd ased hanesyddol wrth ystyried cynigion i'w newid. Mae'n rhaid cyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth wrth wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig.<sup>32</sup> Dylai'r datganiad hwnnw nodi canlyniadau'r asesiad o'r effaith ar dreftadaeth. Felly, er mwyn sicrhau bod adeilad yn cael ei warchod i'r un graddau ag o dan y drefn seciwlar, rhaid bod gan yr enwadau a esemptiwyd system asesu gyfwerth er mwyn sicrhau bod arwyddocâd ac effaith yn cael eu deall. Dylai'r system honno gynnwys datganiad mynediad ar gyfer adeiladau rhestredig nad ydynt yn cael eu defnyddio fel anheddau preifat. Dylai'r system hefyd ystyried a yw'r adeilad yn hygyrch i'r cyhoedd er mwyn cadw'r ddysgl yn wastad rhwng unrhyw newidiadau arfaethedig a'r dyletswyddau sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.<sup>33</sup> Gall paratoi datganiad mynediad helpu i nodi'r opsiwn gorau ar gyfer cynnig mynediad rhesymol a'r opsiwn a fydd hefyd yn cael yr effaith leiaf ar arwyddocâd eich adeilad rhestredig. Mae dogfen Cadw, *Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol*, yn ffynhonnell dda o gyngor defnyddiol am ddylunio cynhwysol.<sup>34</sup>

Dylai asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased hanesyddol ac â maint y newid arfaethedig. Dylent gynnwys digon o wybodaeth i bobl fedru deall arwyddocâd yr ased ac effaith unrhyw newid. Wrth benderfynu a ddylid caniatáu newid ai peidio, dylid gwneud hynny ar sail barn gytbwys am yr angen am y gwaith ac am arwyddocâd yr adeiledd neu'r nodwedd a fyddai'n cael ei newid neu ei cholli. Mae canllawiau arferion gorau Cadw, *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*,<sup>35</sup> yn esbonio sut i gynnal asesiad a pharatoi datganiad o'r effaith ar dreftadaeth. Maent hefyd yn rhoi ffynonellau gwybodaeth a allai fod o gymorth wrth baratoi datganiad arwyddocâd.

Weithiau, mae trefniadau'r enwadau eu hunain ar gyfer asesu arwyddocâd ac effaith yn cael eu galw'n asesiadau o arwyddocâd ac angen ond, pa enw bynnag sydd arnynt, rhaid iddynt gydymffurfio â'r egwyddorion yn *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*.

<sup>32</sup> Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012, rheoliad 6 <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2012/793/contents/made/welsh> fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2017 <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2017/638/contents/made/welsh>

<sup>33</sup> Deddf Cydraddoldeb 2010 [www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents](http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2010/15/contents)

<sup>34</sup> *Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol*, Cadw: Welsh Historic Monuments, 2002 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/disabilityaccess/?skip=1&lang=cy>

<sup>35</sup> *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017 <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

### 4.3 Tystiolaeth Archaeolegol

Dylid ystyried tystiolaeth archaeolegol oherwydd y cyfraniad y mae'n ei wneud at arwyddocâd a gwerth asedau hanesyddol nad ydynt, o bosibl, yn weladwy ar unwaith. Yn rhinwedd yr hanes hir sydd iddynt a'u harwyddocâd diwylliannol, mae cyfoeth o dystiolaeth archaeolegol mewn mannau addoli rhestredig yn aml, o dan y ddaear a hefyd yn rhan o adeiladwaith yr adeilad, lle mae'n bosibl bod arwyddion pwysig o'i hanes a'i ddatblygiad. Mae'r olion archaeolegol hyn yn fregus yn aml ac yn agored iawn i gael eu difrodi a'u dinistrio.

Mae'n bwysig bod gweddillion archaeolegol yn cael eu cadw. Dylai enwadau esempt wneud yn siŵr bod y pwys priodol yn cael ei roi ar weddillion o'r fath wrth ddatblygu ac ystyried unrhyw gynigion ar gyfer newid, gan wneud hynny drwy gadw at y canllawiau isod:

- **Gofynnwch am gyngor.** Pryd bynnag y bo posibilrwydd o weddillion archaeolegol, dylai ymgeiswyr ofyn i gynghorydd archaeolegol yr enwad am gyngor archaeolegol. Dylai ef/hi edrych ar y cofnod amgylchedd hanesyddol perthnasol, sy'n cael ei gadw gan un o'r pedair ymddiriedolaeth archaeolegol yng Nghymru. Os nad oes gan yr enwad gynghorydd archaeolegol, dylai ofyn cyngor y staff sy'n gweithio ar y cofnod amgylchedd hanesyddol perthnasol. Wrth ystyried ceisiadau, dylai cyrff sy'n gwneud penderfyniadau hefyd geisio cyngor archaeolegol am yr effaith y bydd gwaith datblygu yn ei chael ar weddillion archaeolegol, a dylent ofyn hefyd a yw'r camau i liniaru'r effaith honno yn ddigonol.
- **Cofnodwch.** Pryd bynnag y bo posibilrwydd y gallai gwaith datblygu — gan gynnwys gwaith ar adeiladwaith yr adeilad — ddatgelu neu darfu ar weddillion archaeolegol neu eu dinistrio, dylai enwadau esempt wneud yn siŵr eu bod yn achub ar gyfleoedd i gofnodi tystiolaeth archaeolegol. Nid yw cofnodi yn ddigon ynddo'i hun i gyfiawnhau gwaith a fyddai'n tarfu ar weddillion archaeolegol.
- **Ymchwiliwch.** Os yw'n debygol bod yna weddillion archaeolegol, dylai'r corff sy'n gwneud penderfyniadau wneud yn siŵr bod asesiadau desg yn cael eu cynnal. Pan fo hynny'n briodol, dylent drefnu bod gwerthusiadau archaeolegol o'r safon briodol yn cael eu cynnal gan arbenigwr cymwysedig a chymwys.<sup>36</sup> Dylai gwybodaeth sy'n deillio o'r ymchwiliadau hyn lywio'r gwaith o ddatblygu ac ystyried cynigion, gyda'r nod o leihau cymaint ag y bo modd ar unrhyw effeithiau negyddol ar weddillion archaeolegol. Dylid hysbysu adran guradurol yr ymddiriedolaeth archaeolegol berthnasol pryd bynnag y gwneir gwaith archaeolegol.
- **Gwarchodwch.** Os yw'n bosibl y bydd unrhyw waith arfaethedig yn effeithio ar weddillion archaeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol, dylai fod

---

<sup>36</sup> Mae Cadw yn argymhell y dylid defnyddio safonau a chanllawiau Sefydliad Siartredig yr Archaeolegwyr ar gyfer gwaith cloddio archaeolegol. <http://www.archaeologists.net/codes/ifa>



## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

rhagdybiaeth yn erbyn cynigion a fyddai'n arwain at newidiadau mawr neu'n achosi difrod, a rhagdybiaeth o blaid eu cadw lle maent. Mewn achosion eraill, bydd angen pwysu a mesur pwysigrwydd y gweddillion o gymharu â ffactorau eraill, gan gynnwys yr angen am y newidiadau arfaethedig.

### 4.4. Defnyddio Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol

Dylai cyrff gwneud penderfyniadau'r enwadau esempt wneud defnydd llawn o'r cofnodion amgylchedd hanesyddol lleol. Mae hyn yn cyfateb i'r hyn sy'n digwydd o dan y system seciwlar lle mae disgwyl i awdurdodau cynllunio lleol gyfrannu at y gwaith o gasglu cofnodion amgylchedd hanesyddol, a'u defnyddio wrth arfer eu swyddogaethau cynllunio ac wrth wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol.<sup>37</sup>

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru, ar ran Gweinidogion Cymru, sy'n cadw ac yn diweddarau cofnodion amgylchedd hanesyddol ar gyfer ardal pob awdurdod lleol yng Nghymru. Mae'r cofnodion hyn ar gael i'w gweld gan y cyhoedd. Mae'r cofnodion amgylchedd hanesyddol yn cynnwys gwybodaeth am dirweddau ac adeiladau hanesyddol, ac am safleoedd a darganfyddiadau archaeolegol, ac yn cyfeirio darllenwyr at wybodaeth arall. Mae ynddynt hefyd gofnod o'r modd yr aed ati i ymchwilio i'r amgylchedd hanesyddol ac i'w reoli, megis gwaith cloddio archaeolegol, astudiaethau hanesyddol a rhaglenni cadwraeth.

Yn benodol, dylai'r wybodaeth sydd yn y cofnod amgylchedd hanesyddol lywio'r gwaith o ddatblygu unrhyw gynigion, a dylid ei hystyried hefyd wrth benderfynu ar unrhyw geisiadau i newid asedau hanesyddol. Dylai cyrff sy'n gwneud penderfyniadau wneud yn siŵr hefyd fod canfyddiadau unrhyw ymchwiliadau a gynhelir mewn cysylltiad ag unrhyw waith yn cael eu hadneuo yn y cofnod amgylchedd hanesyddol perthnasol.

### 5. Gweithdrefnau Cydsynio'r Enwadau: Cod Ymarfer

Er mwyn cadw at yr egwyddorion arweiniol uchod, dylai fod gan bob enwad esempt system fewnol ar gyfer rheoli gwaith ar adeiladau rhestredig a dylai'r system honno fod yn gyfwerth â'r system reoli seciwlar o ran y drefn briodol i'w dilyn, trylwyredd, ymgynghori, tryloywder ac atebolrwydd. Dylai ddarparu ar gyfer yr isod.

#### 5.1 Cynnal a chadw

Gwaith cynnal a chadw cyffredinol a phriodol, sy'n cael ei gynllunio, yw sylfaen cadwraeth dda. Anogir enwadau esempt i sefydlu trefniadau ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd o gyflwr manau addoli rhestredig a'r asedau sy'n gysylltiedig

---

<sup>37</sup> *Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llundain a Defnyddio, Canllawiau Statudol ar sut y dylai Awdurdodau Lleol, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ddefnyddio Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a Chyfrannu at eu Llundain, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017*  
<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

â nhw, ac ar gyfer mynd ati mewn da bryd i'w hatgyweirio os byddant yn dod o hyd i unrhyw ddiffygion.

### 5.2 Tryloywder

Dylai pob enwad esempt gyhoeddi manylion y gweithdrefnau a ddefnyddir i gytuno ar unrhyw waith, a dylent gadw'r canllawiau hyn mewn cof wrth fynd ati i benderfynu. Dylai'r manylion hynny gynnwys esboniad o sut yr eir ati i wneud penderfyniadau a phwy sy'n eu gwneud, yr amser a gymerir i wneud penderfyniadau a'r broses apelio. Dylid hefyd esbonio pa fath o waith y mae angen cydsyniad ar ei gyfer a'r math o waith y caniateir ei wneud hebdo.

### 5.3 Craffu Annibynnol a Chyngor Proffesiynol

Pe byddai unrhyw gynigion i wneud gwaith mewnol neu allanol ar fan addoli rhestredig neu ar adeiledd sydd o fewn ei gwrttil yn effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, dylid eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan gorff neu berson sy'n annibynnol ar y gynulleidfa neu'r gymuned leol sy'n gwneud y cais.

Wrth ystyried ceisiadau, dylai'r corff sy'n gwneud penderfyniadau ofyn am gyngor pobl sydd â gwybodaeth arbenigol am adeiladau eglwysig. Dylai'r rheini sy'n ei gynghori gynnwys pobl a gaiff eu dewis drwy ymgynghori â Cadw, awdurdodau cynllunio lleol a'r cymdeithasau amwynder perthnasol. Dylai cynghorwyr arbenigol fod wedi'u hachredu yn unol â'r safonau proffesiynol perthnasol mewn cadwraeth, materion archaeolegol a materion cynllunio. Dylid gofyn am gyngor arbenigol ychwanegol hefyd pan fo hynny'n briodol (er enghraifft, ar waith maen, gwydr lliw, gwaith pren ac organau).

### 5.4 Cyngor cyn gwneud cais

Mae mynd ati i drafod cyn cyflwyno cais yn un o'r ffyrdd gorau o reoli newid er mwyn sicrhau bod materion sy'n ymwneud â gwarchod asedau hanesyddol yn cael eu deall ac yn cael yr ystyriaeth briodol o'r dechrau un, a bod unrhyw gyfyngiadau posibl yn cael eu nodi. Dylai system o gynnal trafodaethau cyn-ymgeisio fod yn rhan o brosesau'r cyrff sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae gan nifer o sefydliadau ran bwysig i'w chwarae yn ystod y cam cyn-ymgeisio, yn enwedig Cadw a'r awdurdodau cynllunio lleol. Hefyd, mae'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru i gyd yn gyrrff defnyddiol i droi atynt i gael gwybodaeth a chyngor. Mae cyrff eraill hefyd sydd â'r cylch gwaith penodol o gynnig cyngor i fannau addoli hanesyddol, megis ChurchCare, Church Heritage Cymru ac Addoldai Cymru. Mae manylion yr holl sefydliadau hyn yn yr adran Cysylltiadau.

### 5.5 Ystyried Cynigion ar gyfer Newid

Wrth ystyried cynigion, rhaid i'r corff sy'n gwneud penderfyniadau fod o dan ddyletswydd benodol i ystyried (ynghyd â ffactorau perthnasol eraill) pa mor



## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

ddymunol fyddai hi i gadw'r adeilad eglwysig rhestredig neu ei leoliad, neu unrhyw nodweddion o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol sydd ganddo. Mae hyn yn cynnwys tu mewn yr adeilad ac unrhyw osodiadau a ffitiadau sydd, yn aml, yn gwneud cyfraniad pwysig at ddiddordeb arbennig mannau addoli hanesyddol. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar ddeall arwyddocâd.<sup>38</sup>

Mae angen digon o wybodaeth ar y corff sy'n gwneud penderfyniadau i'w alluogi i ffurfio barn gytbwys, gan bwysu a mesur yr effaith ar arwyddocâd ochr yn ochr â'r manteision posibl a ddaw yn sgil y newidiadau arfaethedig esgor. Dylai bennu'r wybodaeth y mae'n disgwyl iddi gael ei chyflwyno i ategu unrhyw gais am newid. Dylai'r wybodaeth honno gynnwys:

- map o'r lleoliad ar raddfa o 1:1,250 neu 1:2,500, gan amlinellu'r adeilad o dan sylw
- disgrifiad o'r gwaith arfaethedig, gan gynnwys yr egwyddorion a'r cysyniadau dylunio, a rhestr o waith
- planiau a lluniadau yn dangos y sefyllfa bresennol a'r sefyllfa arfaethedig. Ar gyfer unrhyw waith heblaw'r gwaith symlaf, bydd hyn, fel arfer, yn golygu lluniadau, gyda mesuriadau, o'r holl gynlluniau llawr, ac unrhyw weddau allanol neu fewnol y bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio arnynt
- datganiad o'r effaith ar dreftadaeth (neu ddatganiad cyfatebol). Gweler canllawiau Cadw, sy'n esbonio'r hyn y dylid ei gynnwys mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.<sup>39</sup>
- lluniadau manwl o nodweddion penodol y bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio arnynt (er enghraifft, drysau, ffenestri neu fowldinau carreg)
- ffotograffau â'r dyddiad arnynt o'r rhannau o'r adeiladau y bydd y newidiadau arfaethedig yn effeithio arnynt
- copi o'r cofnod rhestru
- unrhyw fanylion eraill fel y bo'n briodol; er enghraifft, asesiadau archaeolegol, adroddiadau cadwraeth am yr adeilad, ei elfennau neu ei ffitiadau, dadansoddiadau o'r paent, datganiadau ecolegol, etc.

### 5.6. Ymgynghori

Cyn gynted ag y bo cais cyflawn wedi'i gyflwyno, dylai enwadau ymgynghori'n ffurfiol â Cadw, yr awdurdod cynllunio lleol a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol, gan roi 28 diwrnod (ac eithrio mewn argyfwng) iddynt gyflwyno sylwadau am y gwaith arfaethedig. Dylid ategu'r ymarfer ymgynghori â'r wybodaeth yn y rhestr wirio uchod. Mae hefyd yn arfer da ymgynghori â Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

<sup>38</sup> I gael rhagor o wybodaeth am ddiogelu asedau hanesyddol. gweler *Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

<sup>39</sup> *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017.

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

Dylai unrhyw sylwadau a wneir gan y rheini yr ymgynghorir â nhw gael eu hystyried cyn gwneud penderfyniad am y gwaith. Byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i'r enwadau ddogfennu sut y maent wedi pwyso a mesur yr holl faterion o dan sylw, gan gynnwys unrhyw sylwadau, wrth fynd ati i benderfynu. Dylai hynny fod yn ddigon i esbonio'r rhesymau dros eu penderfyniad. Dylid rhoi gwybod i Cadw, yr awdurdod cynllunio lleol a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol ymhen 28 diwrnod i'r diwrnod y gwneir y penderfyniad.

### 5.7 Cyhoeddusrwydd

Ac eithrio yn achos gwaith i du mewn adeilad rhestredig gradd II, dylid hysbysebu'r cynigion mewn papur newyddion lleol a'u harddangos ar y safle neu gerllaw iddo. Dylai'r hysbysiadau hyn gynnig cyfnod o 21 diwrnod i bartïon sydd â diddordeb gyflwyno sylwadau. Rhaid ystyried unrhyw sylwadau wrth fynd ati i benderfynu ar y cais.

### 5.8 Amodau

Pan fo'r corff sy'n gwneud penderfyniadau yn rhoi cydsyniad, dylai fod yn gallu gosod amodau priodol ar y cydsyniad; er enghraifft, gofyniad i ddarparu manylion penodedig ychwanegol (megis datganiad am y dull cadwraeth ar gyfer gwaith penodol, neu sut y bwriedir gwarchod yr adeiladwaith hanesyddol), neu raglen o gofnodi'r adeilad neu ymchwiliadau archaeolegol.<sup>40</sup>

### 5.9 Apelau

Dylai fod gan enwadau esempt weithdrefnau annibynnol, teg a thryloyw i ymdrin ag apelau yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi cydsyniad ac i ymdrin ag unrhyw anghydfod am gynigion a allai godi rhwng y gynulleidfa neu'r gymuned leol a'r corff gwneud penderfyniadau.

### 5.10 Cydymffurfio

Er mwyn sicrhau bod adeiladau'n cael eu gwarchod i'r un graddau, rhaid i enwadau wneud yn siŵr bod ganddynt systemau digonol i fonitro sut y mae cydsyniadau'n cael eu gweithredu a bod ymgeiswyr yn cydymffurfio ag unrhyw amodau.

Mae gwneud gwaith heb ei awdurdodi ar adeilad rhestredig yn fater difrifol. Rhaid i weithdrefnau'r corff sy'n gwneud penderfyniadau gynnwys trefniadau ar gyfer mynd i'r afael ag unrhyw waith sydd heb ei awdurdodi. Dylai'r trefniadau hynny gynnwys darpariaeth i adfer adeiladau rhestredig i'w cyflwr gwreiddiol os oes unrhyw waith wedi'i wneud heb gydsyniad. Dylid cyhoeddi gweithdrefnau gorfodi a'u rhannu gyda Cadw, yr awdurdodau cynllunio lleol a'r cymdeithasau amwynder cenedlaethol.

---

<sup>40</sup> Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 016/2014: Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu yn darparu amodau enghreifftiol er mwyn hyrwyddo'r arferion gorau yng Nghymru.  
<http://gov.wales/topics/planning/policy/circulars/welshgovcirculars/wgc-16-2014/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

Rhaid gwneud ceisiadau a chael cydsyniad cyn i unrhyw waith ddechrau. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y dylid rhoi cydsyniad ôl-weithredol ac ni ddylid ei ddefnyddio i roi stamp swyddogol ar waith na fyddai wedi cael cydsyniad fel arall. Hyd yn oed yn achos ceisiadau am gydsyniad ôl-weithredol, dylid cynnal ymarfer asesu ac ymgynghori trylwyr, fel yr amlinellir uchod.

Os gwneir gwaith amhriodol neu waith heb ei awdurdodi, gall Gweinidogion Cymru ystyried tynnu'r esemptiad yn ôl oddi wrth adeilad unigol a dod ag ef yn ôl o dan y system reoli seciwlar.

### 5.11 Rheoli Gwybodaeth

Ar gyfer pob cynnig, dylai'r corff sy'n gwneud penderfyniadau gadw cofnod o sut y dilynwyd ei weithdrefnau, gan gynnwys sylwadau a ddaeth i law, y penderfyniad a wnaed, y rhesymau dros y penderfyniad ac unrhyw amodau a osodwyd. Dylid trefnu bod y cofnod hwn ar gael — ar-lein os oes modd.

Dylai'r corff sy'n gwneud penderfyniadau wneud yn siŵr hefyd fod gwybodaeth yn cael ei chyflwyno i'r cofnod amgylchedd hanesyddol perthnasol a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru. Bydd gwybodaeth briodol yn cynnwys unrhyw ddarganfyddiadau a dehongliadau newydd, a chofnodion ymchwiliadau archaeolegol neu hanesyddol a gynhaliwyd mewn cysylltiad â'r gwaith arfaethedig, ynghyd â gwybodaeth am unrhyw newidiadau a wnaed i asedau hanesyddol.

### 5.12 Argyfyngau

Mewn argyfyngau (er enghraifft, am resymau'n ymwneud â diogelwch neu iechyd, neu er mwyn diogelu'r adeiledd), mae dal disgwyl i ymgeiswyr ofyn am gyngor cyn cyflwyno cais (gan gynnwys ceisio'r arbenigedd priodol), i gyflwyno cais ffurfiol ac i ymgynghori, pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol, ond gan wneud hynny yn unol ag amserlen fyrrach sy'n briodol i'r sefyllfa.

### 5.13 Mannau addoli sydd wedi cau neu sydd wrthi'n cau

Gall manau addoli barhau i wneud cyfraniad gwerthfawr i'r gymuned hyd yn oed pan nad oes eu hangen bellach at ddibenion addoli. Cyn rhoi'r gorau i'w defnyddio at ddibenion addoli, mae'n bwysig nad oes unrhyw oedi diangen wrth ddod o hyd i ffyrdd amgen o'u defnyddio sy'n gydnaws ag arwyddocâd adeiladwaith, tu mewn, cynnwys a lleoliad yr adeilad.

Dylai fod gan enwadau esempt weithdrefnau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer cau eu hadeiladau eglwysig rhestredig. Dylai'r gweithdrefnau hynny gynnwys hysbysu'r awdurdod cynllunio lleol pan rhoddir y gorau i ddefnyddio adeiledd at ddibenion addoli, neu pan nad yw bellach yn dod o dan weithdrefnau'r enwad.

Os rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r adeilad fel man addoli, bydd angen cydsyniad adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw newidiadau. Dylai unrhyw newidiadau a wneir wrth ddisgwyl i'r defnydd ddod i ben (megis tynnu manylion mewnol hanesyddol neu gael gwared ar osodiadau a ffitiadau) gael eu rheoli'n llym yn unol â'r egwyddorion

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

arweiniol a'r cod ymarfer yn y canllawiau hyn. Wrth ystyried rhoi'r gorau i ddefnyddio adeilad fel man addoli, mae gwaith cynllunio gofalus ymlaen llaw ac ymgynghori eang yn hanfodol er mwyn helpu i ddod o hyd i'r ateb gorau.

### 5.14 Monitro ac Adroddiadau Blynyddol

Dylai enwadau esempt roi crynodeb o'u gweithdrefnau rheoli i Cadw a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw newidiadau i'r gweithdrefnau hynny drwy gyflwyno adroddiad blynyddol. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys:

- yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch pwy sy'n rhoi cyngor arbenigol i'r corff gwneud penderfyniadau
- ffigurau am gyfanswm y ceisiadau a'r amser a gymerwyd i bendrffynu arnynt
- gwybodaeth am unrhyw apelau a chamau gorfodi
- gwybodaeth am gau adeiladau ac am adeiladau sydd bellach yn segur
- gwybodaeth am unrhyw waith brys.

Bydd yr wybodaeth hon nid yn unig yn ddefnyddiol wrth fonitro sut y mae'r esemptiad eglwysig yn cael ei weithredu, ond bydd hefyd yn cyfrannu at feithrin dealltwriaeth o'r risgiau sy'n wynebu mannau addoli hanesyddol, ac o'r camau a'r gweithgareddau a fydd yn helpu i sicrhau eu bod yn parhau i gael eu defnyddio.

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

### Gwybodaeth Bellach

#### Deddfwriaeth, Polisi Cynllunio a Chanllawiau

Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (1990)

<http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/9/contents>

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 *I'w gadarnhau*

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9)

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9, Pennod 6), Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?skip=1&lang=cy>

Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

<http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy>

Llawlyfr Rheoli Datblygu

<http://gov.wales/topics/planning/policy/development-management-manual/?skip=1&lang=cy>

#### Canllawiau arferion gorau

*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*, Cadw, Llywodraeth Cymru, 2011

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/conservation/conservationprinciples/?skip=1&lang=cy>

*Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

*Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru: Llunio a Defnyddio*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/historicenvironmentrecords/?skip=1&lang=cy>

*Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

*Rheoli Adeiladau Rhestredig sydd mewn Perygl yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

*Goresgyn y Rhwystrau: Darparu Mynediad Corfforol i Adeiladau Hanesyddol*, Cadw: Welsh Historic Monuments, 2002

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/makingchanges/disabilityaccess/?lang=cy>

*Gwireddu potensial trafodaethau cyn ymgeisio*, Canllaw arfer Llywodraeth Cymru, Mai 2012

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

<http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/preappguide/?skip=1&lang=cy>

*Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, Cadw, 2017

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/?skip=1&lang=cy>

### Cynnal a Chadw a Chadwraeth

Mae Cadw a sefydliadau cadwraeth eraill wedi cyhoeddi amrywiaeth o gyhoeddiadau sy'n ymdrin â gofalu am amryfal fathau o adeiladau, ac a'u cadw a'u haddasu. Mae'r rhain i'w gweld ar-lein yma:

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/publications/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>

BS7913 Guide to the Conservation of Historic Buildings

<http://shop.bsigroup.com/ProductDetail/?pid=00000000030248522>

Historic England <https://historicengland.org.uk/advice/your-home/>

Historic Environment Scotland <https://www.engineshed.org/>

Institute of Historic Building Conservation <http://www.ihbc.org.uk/>

Cynnal a Chadw! <http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/maintenancematters/?skip=1&lang=cy>

Church Care <http://www.churchcare.co.uk/>

### Gwybodaeth Hanesyddol

**Archifau Cymru** — catalog ar-lein sy'n caniatáu ichi chwilio am wybodaeth mewn rhagor na 7,000 o gasgliadau o gofnodion hanesyddol mewn 21 o archifdai yng Nghymru. <https://archivesdotwales.wordpress.com/>

**Archwilio** — cyswllt ar-lein â chofnodion amgylchedd hanesyddol pob un o awdurdodau lleol Cymru. Gellir gweld hefyd yr wybodaeth a gedwir gan ymddiriedolaethau archaeolegol Cymru.

[https://www.archwilio.org.uk/arch/index\\_cym.html](https://www.archwilio.org.uk/arch/index_cym.html)

**Church Heritage Cymru** — cronfa ddata ar-lein yw Church Heritage Cymru ac ynddi dros 1,350 o gofnodion am aeiladau eglwysig yng Nghymru. Mae gwybodaeth ym mhob cofnod am dreftadaeth bensaernïol, archaeolegol a chelfyddydol eglwys. Mae'n cael ei diweddarau'n gyson ac ni ddylid cymryd ei bod yn gofnod cyflawn.

<https://churchheritagecymru.org.uk/churches>

**Coflein** — catalog ar-lein Cofnod Henebion Cenedlaethol Cymru, y casgliad cenedlaethol o wybodaeth am amgylchedd hanesyddol Cymru.

<http://www.coflein.gov.uk/cy/>

**Cof Cymru** — cofnod ar-lein Cadw o asedau hanesyddol Cymru, sy'n cynnwys adeiladau rhestredig, henebion cofrestredig, llongddrylliadau gwarchoddedig, Safleoedd Treftadaeth y Byd a thirweddau hanesyddol cofrestredig. Caiff parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig eu hychwanegu at Cof Cymru yn 2018.

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/recordsv1/cof-cymru/?skip=1&lang=cy>

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

**Cynefin** — adnodd ar-lein i chwilio mapiau degwm Cymru a'u mynegeion.

<http://cynefin.archiveswales.org.uk/cy/>

**Hanes Anghydfurfiaeth yng Nghymru** — ‘rhith-amgueddfa’ ar-lein sy’n adrodd hanes capeli Cymru o ran crefydd, pensaernïaeth, diwylliant a chymdeithas ac a grëwyd gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru mewn partneriaeth ag Addoldai Cymru: <http://www.addoldaicymru.org/nonconformity/> Ymddiriedolaeth Addoldai Cymru. Mae’n cynnwys mynediad i gronfa ddata’r Comisiwn o gapeli.

<http://www.addoldaicymru.org/>

**Cymru Hanesyddol** — porth ar-lein i gofnodion amgylchedd hanesyddol cenedlaethol a rhanbarthol. [www.historicwales.gov.uk](http://www.historicwales.gov.uk)

**Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru** — yn cofnodi’r amryfal ffurfiau a sillafiadau a ddefnyddir ar gyfer enwau nodweddion topograffegol, cymunedau, ffyrdd, adeileddau ac agweddau eraill ar y dirwedd a gofnodwyd mewn ffynonellau sy’n dyddio o’r cyfnod cyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru** [www.llgc.org.uk](http://www.llgc.org.uk)

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

### Cysylltiadau

#### Llywodraeth Cymru

Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)  
Plas Caeriw, Uned 5/7 Cefn Coed, Parc Nantgarw, Caerdydd CF15 7QQ  
Ffôn 03000 256000  
[cadw@llyw.cymru](mailto:cadw@llyw.cymru)  
<http://cadw.llyw.cymru>

#### Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU  
Ffôn 01970 621200  
[nmr.wales@rcahmw.gov.uk](mailto:nmr.wales@rcahmw.gov.uk)  
<https://cbhc.gov.uk/hafan/>

### Awdurdodau Cynllunio Lleol

Gallwch gysylltwch â swyddogion cadwraeth, cynllunio ac archaeolegol awdurdodau cynllunio lleol drwy wefan yr awdurdod lleol perthnasol.

### Cymdeithasau Amwynder

<b><i>Cymdeithas Amwynder Genedlaethol</i></b>	<b><i>Cyfnodau</i></b>	<b><i>Diddordebau Penodol</i></b>
Cyngor Archaeoleg Prydain (CBA) <a href="http://new.archaeologyuk.org/">http://new.archaeologyuk.org/</a>	Pob cyfnod	Effeithiau ar adeiladwaith a gweddillion archaeolegol
Y Gymdeithas Henebion <a href="http://ancientmonumentsociety.org.uk/">http://ancientmonumentsociety.org.uk/</a>	Pob cyfnod	Eglwysi
Y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol (SPAB) <a href="http://www.spab.org.uk/">www.spab.org.uk/</a>	Cyn-1700	
Y Grŵp Sioraidd <a href="http://www.georgiangroup.org.uk">www.georgiangroup.org.uk</a>	1700–1840	
Y Gymdeithas Fictoraidd <a href="http://www.victoriansociety.org.uk">www.victoriansociety.org.uk</a>	1840–1914	
Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif <a href="http://www.c20society.org.uk">www.c20society.org.uk</a>	1914 ymlaen	

### Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys  
41 Broad Street, Y Trallwng SY21 7RR  
Ffôn 01938 553670  
[trust@cpat.org.uk](mailto:trust@cpat.org.uk)  
[http://www.cpat.org.uk/w\\_index.htm](http://www.cpat.org.uk/w_index.htm)



## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestrdig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed  
Tŷ Cornel, 6 Stryd Caerfyrddin, Llandeilo SA19 6AE  
Ffôn 01558 823121

[info@dyfedarchaeology.org.uk](mailto:info@dyfedarchaeology.org.uk)

[www.dyfedarchaeology.org.uk](http://www.dyfedarchaeology.org.uk)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent  
Heathfield House, Heathfield, Abertawe SA1 6EL  
Ffôn 01792 655208

[enquiries@ggat.org.uk](mailto:enquiries@ggat.org.uk)

[http://www.ggat.org.uk/index\\_cym.html](http://www.ggat.org.uk/index_cym.html)

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd  
Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor LL57 2RT  
Ffôn 01248 352535

[gat@heneb.co.uk](mailto:gat@heneb.co.uk)

[www.heneb.co.uk](http://www.heneb.co.uk)

### Enwadau Esempt

#### **Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr**

Baptist Union of Great Britain, Baptist House,  
PO Box 44, 129 Broadway, Didcot, OX11 8RT  
Ffôn: 01235 517700

[www.baptist.org.uk/](http://www.baptist.org.uk/)

#### **Undeb Bedyddwyr Cymru**

Y Llwyfan, Ffordd y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ  
Ffôn 01267 245660

[mennajones@ubc.cymru](mailto:mennajones@ubc.cymru)

<http://www.buw.org.uk/cy/>

#### **Corff Cynrychiadol yr Eglwys yng Nghymru**

2 Sgwâr Callaghan, Caerdydd, CF10 5BT

Ffôn 029 2034 8200

E-bost: [property@churchinwales.org.uk](mailto:property@churchinwales.org.uk)

Gwefan: [www.churchinwales.org.uk](http://www.churchinwales.org.uk)

#### **Eglwys Loegr**

(Ar gyfer yr eglwysi hynny yng Nghymru sydd o fewn ei hawdurdoeth ffacwliti).

Church House, Great Smith Street, London, SW1P 3AZ

Ffôn 020 7898 1000

[enquiry@churchofengland.org](mailto:enquiry@churchofengland.org)

<https://www.churchofengland.org/>

#### **Yr Eglwys Gatholig yng Nghymru a Lloegr**

Pwyllgor Eglwysi Hanesyddol Cymru a Swydd Henffordd

Tŷ'r Archesgob, 41/43 Cathedral Road, Caerdydd, CF11 9HD

Ffôn 029 2079 0712

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

E-bost: [hccsecretary12@gmail.com](mailto:hccsecretary12@gmail.com)

Gwefan: [www.catholicnews.org.uk](http://www.catholicnews.org.uk)

### **Yr Eglwys Fethodistaidd**

Methodist Church Support Services Cluster  
Central Buildings, Oldham Street, Manchester, M1 1JQ  
Ffôn 0161 235 6722  
E-bost: [conservation@methodistchurch.org.uk](mailto:conservation@methodistchurch.org.uk)  
Gwefan: [www.methodist.org.uk](http://www.methodist.org.uk)

### **Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru**

Swyddfa Synod Cymru, Eglwys Fethodistaidd Cyncoed, Cilgant Westminster,  
Caerdydd, CF23 6SE  
Ffôn 029 2076 1515  
[www.methodistwales.org.uk/](http://www.methodistwales.org.uk/)

### **Sefydliadau Eraill**

#### **Addoldai Cymru**

Canolfan yr Eglwys Wesleiaidd  
Ffordd Maesteg  
Ton-du  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF32 9BT  
Ffôn 01656 728400  
[post@addoldaicymru.org](mailto:post@addoldaicymru.org)  
<http://www.addoldaicymru.org/>

#### **Cyfeillion Eglwysi Digyfaill**

St Ann's Vestry Hall  
2 Church Entry  
London  
EC4V 5HB  
Ffôn 020 7236 3934  
[office@friendsoffriendlesschurches.org.uk](mailto:office@friendsoffriendlesschurches.org.uk)  
<http://friendsoffriendlesschurches.org.uk/>

#### **Yr Ymddiriedolaeth Eglwysi Genedlaethol**

The National Churches Trust  
7 Tufton Street  
London  
SW1P 3QB  
Ffôn 0207 222 0605  
[info@nationalchurchestrust.org.uk](mailto:info@nationalchurchestrust.org.uk)  
<http://www.nationalchurchestrust.org/>

#### **Y Gynghair Adeiladau Crefyddol Hanesyddol**

Clutha House  
10 Storey's Gate

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

London  
SW1P 3AL  
Ffôn 0207 2330 900  
[hrb@theheritagealliance.org.uk](mailto:hrb@theheritagealliance.org.uk)  
<http://www.hrballiance.org.uk/>

### **Dolenni o'r ddogfen hon**

Lle gwelwch ddolenni i wefannau ac adnoddau a ddarperir gan drydydd parti, darperir y dolenni hynny er gwybodaeth yn unig. Nid yw'r ffaith ein bod yn cynnig dolen yn golygu ein bod yn ei chymeradwyo mewn unrhyw fodd. Nid oes gan Cadw unrhyw reolaeth ar gynnwys nac argaeledd y tudalennau ac ni fydd yn ysgwyddo unrhyw gyfrifoldeb amdanynt nac unrhyw golled neu ddifrod a allai ddigwydd o'u defnyddio.

## DRAFFT

Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig

Llywodraeth Cymru  
Cadw  
Plas Caeriw  
Uned 5/7 Cefn Coed  
Parc Nantgarw  
Caerdydd CF15 7QQ  
Ffôn 03000 256000  
[cadw@gov.wales](mailto:cadw@gov.wales)  
<http://cadw.llyw.cymru>

Cadw yw gwasanaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol, ac mae'n gweithio i sicrhau bod amgylchedd hanesyddol Cymru yn hygyrch ac yn cael ei ddiogelu'n iawn.

This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron 2018 oni nodir yn wahanol.